OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 567

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

### RHAN 3

Gweithdrefnau Ynghylch Ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio

**Ceisiadau pan ymddengys bod barn sgrinio yn ofynnol**

**8.**—(1) Pan ymddengys i'r awdurdod cynllunio perthnasol—

(a) bod cais sydd ger ei fron i benderfynu arno yn gais Atodlen 1 neu'n gais Atodlen 2;

(b) nad yw'r datblygiad dan sylw wedi bod yn destun barn sgrinio neu gyfarwyddyd sgrinio; a

(c) nad oes ynghyd â'r cais datganiad y cyfeirir ato gan y ceisydd fel datganiad amgylcheddol at ddibenion y Rheoliadau hyn,

mae paragraffau (5) a (6) o reoliad 6 yn gymwys fel pe bai cael neu gofnodi'r cais yn gais a wnaed o dan reoliad 6(1).

(2) Pan fo rheoliad 6(4) yn gymwys yn rhinwedd y rheoliad hwn, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol, pan fo'n angenrheidiol i sicrhau bod y ceisydd wedi darparu'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 6(2), ac i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol, ofyn am wybodaeth ychwanegol cyn dyroddi barn sgrinio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 8 mewn grym ar 16.5.2017, gweler **rhl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017, Adran 8.